**PRIFFYRDD, CYMRU**

# 2012 Rhif 18

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (POYSTON CLOSE, HWLFFORDD, SIR BENFRO) 2012**

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *22 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym* | *4 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990"), a phob pŵer galluogi arall.**(2)**

**1.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Sir Penfro;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan o'r enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Poyston Close, Hwlffordd, Sir Benfro) 201-" sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

**2.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog sebra ar y plan a adneuwyd, gan eu bod wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2010 o dan y rhif cyfeirnod 09/1114/PA.

**3.** Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, a'r briffordd wedi ei gwella a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog ar y plan a adneuwyd, ac y byddant, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980, yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drostynt.

**4.** Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn hyd nes y bydd:

(a) y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(b) y datblygwr wedi darparu'r briffordd newydd a'r briffordd sydd wedi ei gwella, a ddisgrifir yn erthygl 3 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r rhan o briffordd i ganiatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(ch) y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

**5.** Os bydd, yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw offer ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y priffyrdd, ynddynt, arnynt, drostynt, ar eu hyd neu ar eu traws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

**6.** Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd effaith y Gorchymyn hwn yn peidio pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

**7.** Daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990 a'i enw yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Poyston Close, Hwlffordd, Sir Benfro) 2012.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 22 Mawrth 2012

**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p.8.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**<u>Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy’n ffurfio rhan o’r briffordd o’r enw Poyston Close, Hwlffordd, sydd â’i hyd ar y mwyaf yn 15.02 metr, ei lled ar y mwyaf yn 4.07 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 38 metr sgwâr ac a ddangosir fel ‘A’ ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**<u>Disgrifiad o’r rhannau o briffordd newydd sydd i’w darparu o dan y Gorchymyn hwn</u>**

i) Rhan betryal ei siâp o briffordd newydd i’r dwyrain o’r briffordd o’r enw Poyston Close, Hwlffordd, ac yn gyfagos iddi, sydd â chyfanswm ei harwynebedd yn 20 metr sgwâr ac a ddangosir fel ‘B’ ar y plan a adneuwyd;

ii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd sy’n ffurfio pen troi yn gyfagos i’r briffordd o’r enw Poyston Close, Hwlffordd, sydd â chyfanswm ei harwynebedd yn 82 metr sgwâr ac a ddangosir fel ‘C’ ar y plan a adneuwyd;

iii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd yn gyfagos i’r briffordd o’r enw Poyston Close, Hwlffordd, sy’n ymestyn tua’r gorllewin i fod yn gyfagos â’r briffordd o’r enw St Davids Road, Hwlffordd, sydd â chyfanswm ei harwynebedd yn 111 metr sgwâr ac a ddangosir fel ‘D’ ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

**<u>Disgrifiad o’r rhan o briffordd sydd i’w gwella o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd yn gyfagos i’r briffordd o’r enw Poyston Close, Hwlffordd, ac yn ffurfio rhan ohoni, sy’n ymestyn tua’r gorllewin i fod yn gyfagos â’r briffordd o’r enw St Davids Road, Hwlffordd ac i ffurfio rhan ohoni, sydd â chyfanswm ei harwynebedd yn 269 metr sgwâr ac a ddangosir fel ‘E’ ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 4

**<u>Y Datblygiad</u>**

Datblygiad preswyl i ddarparu saith annedd, mynedfa oddi ar y briffordd bresennol, mannau parcio a gwell cyfleusterau troi i gerbydau yn Poyston Close, Hwlffordd yn Sir Benfro.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (POYSTON CLOSE, HWLFFORDD, SIR BENFRO) 2012**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y rhannau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu i'r rhannau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn a'r rhan wedi ei gwella o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn ddod yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Bydd effaith y Gorchymyn yn peidio os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA980071/1.

Os oes unrhyw berson yn dymuno amau dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw rai o'r darpariaethau sydd ynddo, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu

b. bod ei fuddiannau wedi'u rhagfarnu'n sylweddol oherwydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw rai o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn chwe wythnos ar ôl 4 Ebrill 2012, wneud cais i'r Uchel Lys i atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/ Deddfwriaeth ddrafft/Offerynnau Anstatudol Drafft/Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau, 2012).

**Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print brasach oddi wrth Drafnidiaeth, Y Gangen Gorchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**<u>Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n ffurfio rhan o'r briffordd o'r enw Poyston Close, Hwlffordd, sydd â'i hyd ar y mwyaf yn 15.02 metr, ei lled ar y mwyaf yn 4.07 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 38 metr sgwâr ac a ddangosir fel 'A' ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**

**<u>Disgrifiad o'r rhannau o briffordd newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn</u>**

i) Rhan betryal ei siâp o briffordd newydd i'r dwyrain o'r briffordd o'r enw Poyston Close, Hwlffordd, ac yn gyfagos iddi, sydd â chyfanswm ei harwynebedd yn 20 metr sgwâr ac a ddangosir fel 'B' ar y plan a adneuwyd;

ii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd sy'n ffurfio pen troi yn gyfagos i'r briffordd o'r enw Poyston Close, Hwlffordd, sydd â chyfanswm ei harwynebedd yn 82 metr sgwâr ac a ddangosir fel 'C' ar y plan a adneuwyd;

iii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd yn gyfagos i'r briffordd o'r enw Poyston Close, Hwlffordd, sy'n ymestyn tua'r gorllewin i fod yn gyfagos â'r briffordd o'r enw St Davids Road, Hwlffordd, sydd â chyfanswm ei harwynebedd yn 111 metr sgwâr ac a ddangosir fel 'D' ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**

**<u>Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd yn gyfagos i'r briffordd o'r enw Poyston Close, Hwlffordd, ac yn ffurfio rhan ohoni, sy'n ymestyn tua'r gorllewin i fod

yn gyfagos â'r briffordd o'r enw St Davids Road, Hwlffordd ac i ffurfio rhan ohoni, sydd â chyfanswm ei harwynebedd yn 269 metr sgwâr ac a ddangosir fel 'E' ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 4

## Y Datblygiad

Datblygiad preswyl i ddarparu saith annedd, mynedfa oddi ar y briffordd bresennol, mannau parcio a gwell cyfleusterau troi i gerbydau yn Poyston Close, Hwlffordd yn Sir Benfro yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2010 o dan gyfeirnod 09/1114/PA.